Beibl i Blant
yn cyflwyno

Iesu'n tawelu'r storm ar y llyn

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 48 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh



Roedd Iesu a'i ddisgyblion mewn cwch pan gododd storm ffyrnig. Chwipiodd y gwynt y tonnau ar Lyn Galilea. Roedd perygl y byddai cychod yn cael eu suddo a byddai pobl yn boddi.

1

Cafodd y disgyblion eu dychryn yn ofnadwy gan y storm. Roedd y tonnau'n dod dros ochr y cwch ac yn ei lenwi â dŵr. Ond roedd Iesu'n cysgu'n drwm a'i ben ar glustog.

2

Dyma'r disgyblion yn gweiddi arno, "Achub ni, Arglwydd, rydyn ni'n mynd i farw!"

3

"Pam dych chi mor ofnus, ble mae'ch ffydd chi?" meddai Iesu wrth ei ddisgyblion. Yna gorchmynnodd Iesu i'r gwynt dawelu … a … gorchmynnodd i'r tonnau gwyllt fod yn llonydd.

4

GOSTEGODD Y GWYNT … AC AETH Y LLYN YN DAWEL A LLONYDD. Roedd y disgyblion wedi eu syfrdanu.



5

Dyma nhw'n dweud, "Pwy ydy'r dyn yma, mae hyd yn oed y gwynt a'r tonnau yn gwrando arno!"



6

Cafodd Iesu ddiwrnod prysur arall cyn hir wedyn. Cafodd ei ddilyn gan 5000 o bobl i le unig. Trwy bŵer Duw, rhoddodd Iesu fwyd i'r dyrfa i gyd wrth ddefnyddio cinio bachgen bach.



7

Pan ddaeth diwedd y dydd, dyma Iesu'n anfon pawb oddi yno.

8

Bu'n rhaid i hyd yn oed y disgyblion adael. Dyma Iesu'n gwneud iddyn nhw fynd yn ôl i'r cwch a chroesi'r Llyn o'i flaen.



9

Ar ôl i bawb adael, aeth Iesu i fyny mynydd i weddïo. Wrth iddi nosi, roedd Iesu yno ar ei ben ei hun.

10



Ar y llyn, roedd y disgyblion yn wynebu storm o wynt.

11



Roedd y gwynt yn eu herbyn ac roedden nhw'n bell o'r tir er eu bod nhw wedi bod yn rhwyfo ers oriau.

12



Doedd y disgyblion ddim yn gwybod hyn, ond roedden nhw'n mynd i weld rhywbeth annisgwyl iawn yn digwydd!

13



Rhwng tri a chwech o'r gloch y bore, yng nghanol y llyn stormus, gwelodd y disgyblion rywbeth wnaeth iddyn nhw ddychryn am eu bywydau. "Ysbryd yw e!" medden nhw. Ond Iesu, eu Harglwydd a'u Meistr oedd yno, YN CERDDED AR Y DŴR.

14

Dyma Iesu'n dweud wrthyn nhw, "Mae'n iawn! Fi ydy e. Peidiwch bod ag ofn." "Arglwydd, os mai ti sydd yna" meddai Pedr, "gad i mi ddod atat ti ar y dŵr." "Iawn, tyrd," meddai Iesu. Yna camodd Pedr allan o'r cwch yn ddewr a dechrau cerdded ar y dŵr tuag at Iesu.

15



Ond pan welodd mor gryf oedd y gwynt, roedd arno ofn. Dechreuodd suddo, a gwaeddodd "Achub fi, Arglwydd!"

16

Dyma Iesu'n estyn ei law allan yn syth a gafael ynddo. "Ble mae dy ffydd di?" meddai wrtho, "Pam wnest ti amau?" Wrth iddyn nhw ddringo i mewn i'r cwch dyma'r gwynt yn tawelu.

17



Dyma'r rhai oedd yn y cwch yn addoli Iesu, a dweud, "Mae'n wir, Ti ydy Mab Duw."

18

Iesu'n tawelu'r storm ar y llyn

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Mathew 8, Mathew 14, Marc 4, Luc 8

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!